# CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

Atodiad 1

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

## Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad Cynnydd Dros Dro

## TACHWEDD 2025

# CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

.

## Cyd-destun

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud hi'n orfodol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Cyhoeddwyd strategaeth gyntaf Cyngor Rhondda Cynon Taf ym mis Mai 2019. Roedd hyn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Mai 2019 i fis Mai 2023. Cafodd fersiwn ddiwygiedig ei chyhoeddi ym mis Mai 2023, yn cwmpasu'r cyfnod mis Mai 2023 i fis  Mai 2028.

Mae Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn canolbwyntio ar 'Ddarparu Toiledau'. Mae'r penderfyniad i ddarparu a chynnal a chadw toiledau mewn mannau cyhoeddus yn nwylo awdurdodau lleol sydd â'r pŵer o dan adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus. Does dim dyletswydd uniongyrchol ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 hefyd yn datgan fod, lle mae awdurdodau lleol yn darparu cyfleusterau cyhoeddus, rhaid iddyn nhw weithredu mewn ffordd strategol o ran sut y mae modd darparu cyfleusterau a rhoi mynediad iddyn nhw; ystyried ffactorau megis lleoliad, hygyrchedd, math o gyfleusterau, amlder defnydd ac ansawdd safleoedd presennol, yn ogystal â phenderfynu a oes angen rhagor/llai o safleoedd ar y boblogaeth leol.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi adolygu'r ddarpariaeth bresennol o ran toiledau mewn cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor ledled ardal yr awdurdod lleol yn ystod y broses o ysgrifennu'r strategaeth.

I fodloni gofynion y Ddeddf, mabwysiadodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ddull integredig o ddarparu cyfleusterau cyhoeddus â'r gymuned yn ganolbwynt.

Cadwodd strategaeth 2023 – 2028 y ddau amcan allweddol a sefydlwyd yn y strategaeth wreiddiol:

## Amcanion strategol

- Gwella'r cyfleusterau sydd eisoes ar gael a gwneud y defnydd gorau ohonyn nhw
- Hybu cyfleusterau ychwanegol, addas a hygyrch

Cefnogir yr amcanion hyn gan nifer o gamau gweithredu ategol i'w gweithredu. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaethau o ran y dyfodol a chyfleoedd i asesu anghenion newidiol cymunedau lleol.

Mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyhoeddi datganiad hyd yn hyn ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn Strategaeth a Chynllun Toiledau Lleol 2023 – 2028 sy'n dilyn y cyflwyniad yma.

# CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

Mae'r datganiad yma'n ymwneud â'r cyfnod rhwng Mai 2023 a Mai 2025.

## Nod strategol

Er mwyn cyflawni amcanion strategol Strategaeth Toiledau Lleol Rhondda Cynon Taf 2023-2028, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i:

- nodi lefel y ddarpariaeth o ran toiledau cyhoeddus ar hyn o bryd;
- dadansoddi canfyddiadau'r asesiad o angen ar gyfer toiledau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal;
- ystyried anghenion y boblogaeth gyffredinol;
- nodi'r anghenion ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol;
- nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol;
- cefnogi mentrau Llywodraeth Cymru i wella gwybodaeth sydd ar gael am gyfleusterau toiledau;
- darparu gwybodaeth sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r angen yma, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y mae'r cyngor yn ei hystyried yn briodol.

## Datblygiadau allweddol

Mae'r datblygiadau allweddol canlynol wedi digwydd yn ystod y cyfnod Mai 2023 – Mai 2025:

- Mae nifer y toiledau 'Changing Place' ar draws y fwrdeistref wedi cynyddu o 8 yn 2023 i 11 yn 2025. Mae'r rhain wedi'u hariannu gan yr Awdurdod Lleol. Mae tri datblygiad newydd, mae dau ohonyn nhw mewn lleoliadau cymunedol, ac un yn yr hwb trafnidiaeth, fel y manylir isod.
- Mae cynllun gwaith aml-wasanaeth wedi'i ddatblygu i fonitro'r gwaith a'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn ymrwymiadau Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT 2023-2028.
- Mae gwell gwybodaeth ar gael am ddarpariaeth toiledau sy'n eiddo i'r Cyngor a chyfleusterau ychwanegol mewn lleoliadau cymunedol a busnesau preifat trwy ddatblygiadau ar y we. Gweler y ddolen.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Heddlu De Cymru, y cyhoedd, a grwpiau cymunedol i sicrhau bod cyfleusterau yn parhau i fod yn ddiogel a gweithio gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth toiledau ger mannau allweddol lle mae pobl yn ymgynnull yn ystod y nos. Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r Heddlu i wella diogelwch mewn toiledau cyhoeddus. Does dim achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod i sylw, ac mae'r Heddlu'n cynnal monitro parhaus.
- Mae'r Cyngor wedi gweithredu gwelliannau sy'n gyfeillgar i'r sawl sydd â dementia megis cynyddu cyferbyniad lliwiau mewn cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor. O'r 18 lleoliad toiledau cyhoeddus, mae 8 wedi'u gwella (33 toiled unigol), ac mae ganddyn nhw bellach seddi lliw-gyferbyniol. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cael gwared ar y seddi gwyn sy'n weddill a gosod rhai du er mwyn gwella'r cyferbyniad.

- Adolygwyd cymhareb y cyfleusterau i wrywod a menywod ac ar gyfer y gymuned LHDTCRhA+. Ar draws y 18 cyfleuster toiled cyhoeddus, mae 20 o doiledau wedi'u dynodi i ddynion a 38 o doiledau wedi'u dynodi i fenywod, ynghyd â 14 o doiledau hygyrch. Darperir y toiledau hygyrch yma i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau.
- Adolygwyd ymrwymiad y Cyngor i gynnal cyfleusterau toiled hygyrch allweddol RADAR (Royal Association for Disability and Rehabilitation).
- Mae Cynhyrchion Urddas Mislif ar gael mewn cyfleusterau cymunedol ledled Rhondda Cynon Taf. Mae'r ystod o gynhyrchion yn cynnwys opsiynau cynaliadwy sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd.
- Mae arwyddion wedi'u gwella i wella gweledедd. Mae arwyddion rhywedd mwy wedi'u gosod yn lle arwyddion rhywedd sy'n fach neu wedi pylu er mwyn gwella hygyrchedd i unigolion sydd â nam ar eu golwg.
- Lansiodd y Cyngor gynllun peilot i gefnogi cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol llwyddianus ym Mhontypridd ym mis Awst 2024. Roedd y cynllun yn galluogi pobl nad oedden nhw'n gwsmeriaid i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn busnesau a lleoliadau cymunedol oedd yn cymryd rhan. Bellach mae 7 Canolfan Hamdden, 7 Llyfrgell, ac 8 busnes lleol yn arddangos sticer logo toiled y cynllun i nodi cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd.

## Cynnydd yn erbyn nodau'r strategaeth

Mae cynllun gwaith aml-wasanaeth wedi'i ddatblygu er mwyn gwella monitro ac olrhain cynnydd. Mae'r fframwaith yma'n galluogi goruchwyliaeth reolaidd o'r strategaeth a'i chamau gweithredu allweddol trwy gyfarfodydd wedi'u hamserlennu ac adolygiadau cynnydd ddwywaith y flwyddyn. Mae'n meithrin perchnogaeth ar y cyd o'r strategaeth ac yn cryfhau atebolrwydd ar draws carfanau.

Yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol, cafodd arwyddion rhywedd mwy a mwy amlwg eu gosod yn lle arwyddion oedd wedi pylu, gan wella gweledедd ac o bosibl gwella hygyrchedd i unigolion â nam ar eu golwg. Mae ymrwymiad parhaus i ddisodli unrhyw arwyddion sydd wedi pylu gydag arwyddion mwy a mwy amlwg yn y dyfodol.





# CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

Gan adeiladu ar ddatblygiad Canolfannau Cymunedol ers eu cymeradwyo'n wreiddiol gan y Cabinet yn 2018, mae cefnogaeth wedi'i gwella trwy gyflwyno cynhyrchion urddas y mislif mewn cyfleusterau toiled ym mhob canolfan cymunedol a llyfrgell yn y fwrdeistref, yn ogystal ag o fewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol sy'n gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Mae cyfanswm o 68 o leoliadau ar draws y fwrdeistref yn stocio cynhyrchion, ac mae'r fenter hon yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at eitemau hanfodol mewn modd disylw a chynhwysol, gan gefnogi iechyd a lles.

Mae'r ystod o gynnyrch yn cynnwys opsiynau cynaliadwy sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd, sy'n cyd-fynd ag ymrwymiadau amgylcheddol ehangach ac yn hyrwyddo dewisiadau cyfrifol. Mae'r datblygiad yma'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus i degwch, hygyrchedd a chynaliadwyedd o fewn gwasanaethau cymunedol.






Er mwyn cefnogi cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn llwyddiannus ym mis Awst 2024, mabwysiadodd y Cyngor ddull cydweithredol â phartneriaid lleol, gan gydnabod yr her o ran darparu toiledau ar gyfer mwy o ymwelwyr.

Galluogodd cynllun peilot bobl nad ydyn nhw'n gwsmeriaid i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn busnesau a oedd yn cymryd rhan, gan gynyddu nifer y toiledau hygyrch ar draws canol y dref yn sylweddol. Ymunodd cyfanswm o wyth busnes â'r fenter; pob un yn arddangos sticer toiled dynodedig ac yn cael ei restru ar dudalen we '[Toiledau cyhoeddus yn RhCT]' y Cyngor. Fe wellodd y dull yma brofiad ymwelwyr a dangosodd ymgysylltiad cymunedol cryf ac ymatebolrwydd i anghenion y cyhoedd. Bydd y dull yma nawr yn cael ei ehangu, fel y Cynllun Toiledau Cymunedol, gyda busnesau a sefydliadau cymunedol ychwanegol ledled y fwrdeistref.

## Deall Dementia

Gan gyd-fynd â rhaglen waith Cymunedau O Blaid Pobl Hŷn y Cyngor, ac i gefnogi cymunedau sy'n Deall Dementia lleol, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i wneud newidiadau cadarnhaol i wella bywyd y rheiny sy'n byw gyda dementia.

## CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

Yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol, bydd unrhyw gyfleusterau sydd angen eu gwella, eu hatgyweirio neu mae angen cyfleusterau newydd yn eu lle yn ymgorffori deunyddiau cyferbyniad lliw i wella hygyrchedd i unigolion sy'n byw gyda dementia. Mae'r dull yma'n cefnogi ciwiau gweledol cliriach, yn lleihau dryswch, ac yn hyrwyddo mynd a dod mwy diogel o fewn mannau cyhoeddus. Drwy ymgorffori egwyddorion dylunio cynhwysol mewn gwaith cynnal a chadw arferol, mae'r gwasanaeth yn parhau i flaenoriaethu urddas, annibyniaeth a mynediad cyfartal i bob defnyddiwr. Hyd yn hyn, ar draws y 18 cyfleuster toiled cyhoeddus, mae gan 33 o doiledau seddi lliw-gyferbyniol gan ddefnyddio dyluniad 'Wallgate' wedi'i fowldio fel y dangosir isod.



## Ymgyrch 'Changing Places'

Cyfleusterau yw toiledau 'Changing Places' sy'n rhoi'r modd i bawb, waeth beth fo'u hanghenion o ran hygyrchedd, eu hanabledd neu eu dibyniaeth ar gymorth cynhalwyr (gofalwyr) neu offer arbenigol, i ddefnyddio cyfleuster toiled glân ag urddas.

Efallai y bydd angen offer a lle ychwanegol ar bobl ag amrywiaeth o anableddau i ganiatáu iddyn nhw ddefnyddio'r toiledau'n ddiogel ac yn gyfforddus.

Mae darparu cyfleuster 'Changing Places' yn rhoi'r modd i bobl gael rhagor o ddewis o ran gweithgareddau yn y gymuned, heb orfod mynd adref, newid mewn amgylchiadau anurddasol neu fod yn anghyfforddus a theimlo'n frwnt. Mae'r gwaith o asesu'r sefyllfa o ran y nifer o fannau newid sydd ar gael yn Rhondda Cynon Taf wedi'i gwblhau a ble mae cyfleusterau ychwanegol wedi'u nodi mae'r rhain wedi'u cofrestru ar wefan
www.changing-places.org.

# CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

Yn ogystal â chyfleusterau presennol fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae dau safle Changing Places ychwanegol wedi cael eu datblygu ers mis Mai 2023.

**Y Ffatri Gelf, Maerdy** – Bu'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â grŵp cymunedol sefydledig, gan eu cefnogi gyda chyllid grant allanol, i adnewyddu eu toiledau sy'n cynnig cyfleusterau y tu hwnt i'r hyn a ddarperir fel arfer mewn toiled hygyrch safonol, gan gynnwys peiriant codi trydan a gwely newid i oedolion.





**Cymdeithas Cymuned y Gilfach-goch** – yn dilyn mapio a chwmpasu helaeth o gyfleusterau presennol a mannau lle'r oedd diffyg darpariaeth, nodwyd y lleoliad yma fel y lleoliad dewisol ar gyfer cyfleuster Changing Places newydd. Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â grŵp cymunedol sefydledig, gan eu cefnogi gyda chyllid grant allanol i adnewyddu bloc cawodydd adfeiliedig ar lawr gwaelod yr adeilad. Mae nawr yn cynnig cyfleusterau y tu hwnt i'r hyn a ddarperir fel arfer mewn toiled hygyrch safonol, gan gynnwys toiled a chawod hygyrch, peiriant codi trydan a gwely newid i oedolion.



**Canolfan Drafnidiaeth y Porth** - wedi'i agor ddechrau 2025, mae Canolfan Drafnidiaeth y Porth yn darparu cyfnewidfa drafnidiaeth fodern o ansawdd a weithredir a'i rheoli gan sefydliad Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Ganolfan Drafnidiaeth newydd yn cynnwys cyfleusterau toiled cyhoeddus, ynghyd â darpariaeth toiled/man newid hygyrch a chyfleuster newid babanod.

# CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025




## Gwella ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ar gael am y toiledau sydd ar gael

Mae'n hanfodol bod modd i drigolion ac ymwelwyr ddod o hyd i'r cyfleusterau toiled addas agosaf ar gyfer eu hanghenion yn hawdd ac yn gyflym, er mwyn bod modd i bobl gymryd rhan lawn yn eu cymuned a mwynhau ardal eu hawdurdod lleol.

Gan ddatblygu adnoddau gwe presennol i gynyddu gwybodaeth am gyfleusterau sydd ar gael, crëwyd tudalen we'r Cyngor 'Toiledau cyhoeddus yn RhCT'. Mae'r cyfleuster yma hefyd yn darparu dolenni mapio / cyfeirio trwy fapiau Google i wella hygyrchedd yn enwedig i ymwelwyr a allai fod yn anghyfarwydd â'r ardal leol. Cynhaliwyd hyn fel cynllun peilot ym Mhontypridd a'r cyffiniau mewn ymateb i'r Eisteddfod a gynhaliwyd yn lleol yn ystod 2024.

Yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus ym Mhontypridd, mae'r Cyngor bellach yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau cymunedol i gynyddu mynediad at gyfleusterau toiledau ledled y fwrdeistref.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cydweithio â'r Trydydd Sector a busnesau i gyflwyno Cynllun Toiledau Cymunedol ar draws yr ardal. Bydd busnesau a sefydliadau cymunedol yn gallu gwneud cais am y cynllun gan ddefnyddio proses ar-lein a dangos eu bod nhw'n rhan o'r cynllun drwy arddangos sticer ffenestr Cynllun Toiledau Cymunedol. Mae'r broses ar-lein yn cael ei datblygu ar hyn o bryd,

ac mae bron â chael ei chwblhau, ynghyd â thaflenni hyrwyddo, bydd y ddau yn barod ar gyfer lansio'r ymgyrch newydd yn ystod mis Medi 2025.

## Protocolau glanhau a chynnal a chadw

Mae cyfleusterau toiledau sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor yn cael eu glanhau'n drwyadl yn rheolaidd. Mae toiledau a throethfeydd cyhoeddus sy'n eiddo i'r Cyngor yn RhCT yn cael eu glanhau o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac mae'r holl gyfleusterau ac eithrio toiledau i'r anabl ar gau ar ddydd Sul.

Mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei wneud pan fo angen a phan rydyn ni wedi cael gwybod am ddiffygion. Mae'r gwaith cynnal a chadw yma'n mynd i'r afael â phroblemau megis toiledau sydd wedi torri, ac mae swyddogion ymroddedig yn y gwasanaeth yn gwneud y gwaith. Mae'r systemau cloi trydanol yn dal i gael eu defnyddio fel bod modd agor a chau cyfleusterau o bell, a hynny'n caniatáu i ragor o amser gael ei neilltuo ar gyfer gwaith glanhau. Mae hefyd modd defnyddio'r system mewn achosion lle mae angen cau toiledau ar frys.

Cyfrifoldeb perchnogion yr adeiladau, y rheolwyr neu'r meysydd gwasanaeth priodol yw cynnal a chadw a glanhau'r toiledau a ddarperir drwy'r Cynllun Toiledau Cymunedol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden.

## Ymgynghoriad

Gan gyd-fynd â rhaglen waith Cymunedau o Blaid Pobl Hŷn y Cyngor mae ymgysylltu ac ymgynghori'n uniongyrchol â phobl hŷn yn parhau trwy Fforymau 50+ lleol, Rhwydweithiau Cymdogaeth, Grŵp Ymgynghori'r Bobl Hŷn RhCT, Grwpiau Cymunedol ar gyfer Pobl Hŷn.

Cyflwynir crynodeb isod sy'n manylu ar y themâu allweddol o'r adborth ar ddarpariaeth toiledau yn ystod diwedd 2022, gan gadarnhau, er bod gwelliannau wedi'u gwneud, fod y canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad gwreiddiol yn 2019 yn parhau i fod yn ddilys:

**Hygyrchedd ac Argaeledd**

- Codwyd pryderon ynghylch argaeledd cyfyngedig cyfleusterau toiled i bobl anabl a rhai sy'n addas i bobl feichiog.
- Mae oriau agor cyfyngedig, yn enwedig gyda'r nos, yn atal rhai trigolion rhag defnyddio toiledau pan fo angen.
- Tynnodd gweithwyr cymunedol sylw at yr angen i dynnu mwy o sylw at gyfleusterau presennol mewn adeiladau cyhoeddus.

**Cefnogaeth ar gyfer Cyfranogiad Cymunedol**

- Mae mynediad at doiledau yn hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a chymdeithasol, fel grwpiau cerdded.

- Gwelir bod darpariaeth doiledau ddigonol yng nghanol trefi yn ffactor allweddol wrth ddenu ymwelwyr a chefnogi busnesau lleol.

**Arwyddion ac Ymwybyddiaeth Gyhoeddus**

- Mae diffyg arwyddion clir yn ei gwneud hi'n anodd i drigolion ac ymwelwyr ddod o hyd i doiledau cyhoeddus.
- Yn aml, mae pobl yn amharod i ofyn i ddieithriaid am gyfarwyddiadau, sy'n dangos bod angen gwell gwelededd a chyfathrebu.

**Safonau a Glendid**

- Pwysleisiodd yr adborth bwysigrwydd cyfleusterau glân sy'n cynnwys cyfleusterau sylfaenol fel bachau, silffoedd a biniau.
- Cafodd glendid ei grybwyll yn gyson fel blaenoriaeth i ddefnyddwyr.

**Cydweithio Busnesau a Chymuned**

- Mae llawer o fusnesau'n caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau'n anffurfiol, ond gall disgwyliadau ynghylch pryniannau atal mynediad.
- Mae potensial i gael partneriaethau cryfach rhwng y Cyngor a busnesau lleol i ffurfioli a hyrwyddo mynediad at doiledau.

**Cost a Chyfleustra Talu**

- Ar y cyfan, mae'r cyhoedd yn fodlon gwneud taliadau bach (e.e. 20c), ond mae dulliau talu hen ffasiwn (e.e. gofyn am ddarnau arian) yn cael eu hystyried yn rhwystr.
- Gallai moderneiddio opsiynau talu wella hygyrchedd a phrofiad y defnyddiwr.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn adolygu'r Strategaeth Toiledau Lleol 2023 – 2028, a bydd unrhyw ddiwygiadau gofynnol i'r strategaeth yn barod i'w chyhoeddi ym mis Mai 2028.

Bydd y Garfan Datblygu Cymunedol yn dal i fod yn gyfrifol dros gyflawni Strategaeth Toiledau CBSRhCT. Bydd y garfan yma'n dal y cynllun gwaith a ddatblygwyd ac yn goruchwylio monitro ac adrodd ar gynnydd trwy gyfarfodydd wedi'u hamserlennu ac adolygiadau cynnydd bob chwe mis i sicrhau bod perchnogaeth a chyfraniad parhaus ar draws meysydd gwasanaeth. Bydd y garfan yma'n parhau i sicrhau bod holl ddatblygiadau'r Cyngor yn ystyried anghenion trigolion o ran toiledau cyhoeddus, toiledau yn y gymuned a mannau newid.

Er mwyn cefnogi pobl â dementia yn well yn ein cymunedau ni, byddwn ni'n dal i wneud gwelliannau sy'n addas ar eu cyfer. Bydd gwella cyferbyniad lliw yn y cyfleusterau yma'n helpu pobl â dementia i wneud defnydd diogel o gyfleusterau ymolchi.

## CBSRhCT – Strategaeth Toiledau Lleol – Datganiad cynnydd hyd yn hyn – Tachwedd 2025

Rhaid sicrhau bod cyfleusterau yn hygyrch i bawb gael defnyddio cyfleuster toiled glân ag urddas, waeth beth fo'u hanghenion o ran mynediad, anabledd, neu ddibyniaeth ar gymorth cynhalwyr neu offer arbenigol.

Byddwn ni'n ystyried gosod arwyddion hygyrch newydd i atal gwahaniaethu yng nghyfleusterau'r Cyngor a chyfleusterau yn y gymuned.